# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

**140** **TACHWEDD**


## Rhydderch

O Örfod pan ddaw terfyn rhy
swta
ar y set i'w dderbyn,
yn ei siom mae'r teulu syn
yn llygadu'r llygedyn.

Athro ysgol yn Llanrwst oedd o pan gwrddais i ag o y tro cyntaf, er fy modd i wedi ei weld o'n perfformio ar lwyfan a gwrando arnon canu ar record cyn hynny. Mi wyddwn amdano'n dda ond roeddwn i'n digwydd bod allan o Gymru yn ystod y blynyddoedd pan oedd o'n dechrau amlygu ei ddoniau yn gyhoeddus.
Os y cofiaf yn iawn ym Mangor y dois i wyneb yn wyneb ag o ac mi aethon ati i drafod ar unwaith brinder sgrifenwyr ar gyfer teledu yng Nghymru. Ar y pryd roedd Jac Williams yn arloesi'n lew gyda rhaglen gomedi o'r enw 'Stiwdio B'; hynny yn wyneb anawsterau dyrys ddigon o ran adnoddau stiwdio a chyllid ond, yn fwy difrifol na dim, yr anhawster o sicrhau deunydd graenus oddi wrth sgrifenwyr. Sut bynnag, wrth drafod y rhaglenni mi gawn fod Rhydderch yn bur feirniadol o'r stwff a gyflwynid. Digon teg: roedd Jac a minnau'n flin a swta. 'Wel, tria di dy law arni 'ta boi, yn lle ista ar dy din yn fama yn beirniadu'. 'Anghofia i byth mo'i chwerthiniad ffrwydrol o. Roedd o wrth ei fodd, a dyna pryd y dechreuais i sylweddoli nad oedd 'na ddim cysgod moleindra na dig o gwmpas yr hogyn hwn. 'Reit', medda fo, 'mi wna i'. A mi wnaeth.
Cyn bo hir iawn daeth i weithio fel Cyfarwyddwr i'r Adran Adloniant ac o hynny 'mlaen mi ges gyfle i ddod i'w nabod. 'Doedd hynny ddim yn anodd gan nad oedd ganddo ofn agor ei galon i rywun oedd am geisio bod yn gyfeillgar ag o. Un hynod oedd o am roi; nid rhoi ei arian yn unig, ond efo'i hun. Bron nad ai hynny a gwynt rhai pobl a ddeuai i gysylltiad ag o. Roedd 'na rywbeth ymosodol o gylch ei gyfeillgarwch. Creadur teimldwy iawn. Ond un hawdd iawn i'w frifo hefyd. Nid ofnai feirniadaeth ond ped awgrymech eich bod, rywsut, wedi eich



siomi ynddo byddai hynny yn torri trwodd at fer ei esgyrn a gallai edrych, y troeon hynny, fel ci wedi ei guro.
Mae pobl sy'n gwneud pethau ar sail ymwybod a dyletswydd yn bobl i'w hedmygu a'u mawrygu yn wir; ond ymhoffi y bydd dyn mewn cydfforddolyn y mae ei weithredoedd graslon o yn fynegiad naturiol, rywsut, o'r math o berson ydi o. I'r ail ddosbarth y perthynai Rhydderch. Tueddai i fodloni ar fel y deuai pethau'r tro cyntaf; pethau'n llifo neu'n goferu ohono, fel 'tae. Felly yr oedd ei haelioni, yn tarddu ohono mor naturiol a dwr yn tarddu o ffynnon. Nid nad oedd o, bid siwr, yn ymwybod a dyletswydd ond, rywsut neu'i gilydd, 'doedd yr alwad honno ddim yn dod i'w ran yn rhyw aml iawn.
Roedd o'n gymer - oedd. Yn medru bod yn ddigri ryfeddol - yn bendant. Ond camgymeriad mawr a fyddai synio amdano fel rhyw glown o ddyn. Nid clown a llai sgwennau'r dramau a sgwennodd. Nid lolyn chwaith a lwyddodd i ennill parch cymaint o'i gyfeillion a'i gydnabod. Gwyddai yntau yn dda am oria o ddifrifolwch dwys ac yr oedd iddo yntau ei bryderon, ei freuddwydion a'i 'ddymuniadau pell eu hamcan'.

Mi ddwedodd wrth Phyllis un tro y byddai'n sgwennu fy mywgraffiad i. Yr hen gyfaill hoffus. Mae'r byd 'ma'n medru bod yn lle chwithig iawn ar brydiau. Yn siwr, mi fydd yn chwith ofnadwy i'w holl gyfeillion ar ei ol. I Irene, ei wraig; i Nel, ei fam; i Marian a Buddug, ei chwiorydd; ac i Sian, ei neith, mi fydd yn fyd gwag am hir iawn. Cydymdeimlwn yn ddwys a nhw yn arbennig.

Mered

## Taflen yn Symud

Ar ôl chwe mlynedd yn Heol Conwy, mae Siop Taflen yn symud i ganol y dre.
Pwyllgor Rheoli Canolfan yr Urdd gychwynodd y fenter ym mis Medi, 1981. O'r cychwyn, cafwyd cefnogaeth gref gan nifer o garedigion yr Urdd yn y ddinas ac ardal helaeth o Forgannwg a Gwent.

Er i'r busnes gynydd o safbwynt gwerthu llyfrau i'r ysgolion, ni wireddwyd y gobeithion ynglyn a denu niferoedd o Gymry i'r siop eu hunan. Penderfynwyd felly i symud y fenter i'r dre, lle bydd hi'n gyfleus a chanolog, ac yn fan cyfarfod i'n cwsmeriaid sydd yn gweithio ac yn siopa yn y ddinas.

Er mwyn sicrhau stoc amrywiol a choi'r fenter ar sail ariannol mae'r cwmni wedi cael ei ehangu, gan wahodd pobl o'r tu allan i fuddsoddi yn y cwmni ac eisioes mae'r mwyafrif o'r cyfranddaliadau wedi eu cymryd.

Mae'r siop newydd mewn safle gwych, yn y Duke Street Arcade, gyferbyn a'r castell. Er fod dau lawr i'r siop, dim ond y llawr uchaf, sef lefel ar arcade, a ddefnyddir ar hyn o bryd.

Mae cynlluniau ar y gweill i wneud y llawr isaf yn le bwyta, gan werthu byr-brydau a choffi. Gobeithir agor y rhan yma o'r fenter ar ôl y Nadolig, ac mae'r cwmni yn awyddus i ddod o hyd i berson/nau sydd a diddordeb mewn ymgymryd a'r math hwn o ddatblygiad.

Emyr Huws Jones, sef y Rheolwr er sefydlu'r cwmni, fydd yn gyfrifol am rediad y siop, ac fe fydd yn derbyn cymorth gan gyfarwyddwyr y cwmni, sydd yn cynnwys amryiaeth helaeth o arbenigwyr.

Yn ychwanegol at y dewis arferol o lyfrau, casetiau a chardiau, fe fydd y siop yn gwerthu crefftau o safon, a fydd yn apelio at y Cymry yn ogystal a'r twristiaid.
Fe fydd y siop yn dal i gynnig yr un gwasanaeth i ysgolion a chymdeithasau, gan gyflenwi archebion, a mynychu ffeiriau llyfrau a nosweithiau rhieni.
Y gobaith yw y bydd y siop ar ei newydd wedd yn agor ar y 23ain o Dachwedd, yn barod ar gyfer y cyfnod Nadolig.

# LLYTHYRAU

**BBC - CYMRU**

Annwyl Syr/Madam,

Tybed a fyddai gan yr ysgolion yn eich ardal ddiddordeb mewn ymuno mewn cystadleuaeth bwysig?

Yn ystod 1988 mi fyddwn yn dathlu pedwar can mlwyddiant cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg - digwyddiad oedd yn drobwynt yn ein hanes.

Tybed a fyddai diddordeb yn ysgolion eich ardal i ymuno mewn cystadleuaeth i greu arddangosfa gyda lluniau/dyluniau/arlunwaith i gofnodi'r achlysur arbennig yma.
Amgaeir manylion am adrannau'r gystadleuaeth gyda'r llythyr hwn.

Mae'r Gwir Barchedig Roy Davies Esgob Llandaf, wedi cytuno'n garedig i agor yr arddangosfa a gynhelir rhwng 24 Chwefror a Mawrth 9fed, 1988. Gwahoddir yr enillwyr a'r goreuon i'r Seremoni Agoriadol ac fe delir, o fewn rheswm, eu treuliau gan raglen gylchgrawn ieuenctid y BBC, Bilidowcar, sydd hefyd yn cyd-drefnu'r digwyddiad.

Os sylwch chi ar fanylion y gystadleuaeth, erfynnir ar bawb i ddanfon gwybodaeth am eu bwriad i gystadlu cyn gynted â phosib, ac annogaf pawb i wneud hyn fel y gellir talu'r sylw dyladwy i bob cynnig.

Yr eiddoch yn gywir,

John Jenkins,
Swyddog y Wasg a
Chysylltiadau Cyhoeddus, Cymru

**MANYLION Y GYSTADLEUAETH**

Y testun i'r holl gystadlaethau yw 'William Morgan, ei fywyd a'i waith'. Gall y gwaith fod yn Gymraeg neu yn Saesneg ac fe rennir y cynigion i'r dosbarthiadau oedran canlynol :

A Ieuengaf - hyd at 7 mlwydd oed
B Cynradd - 7-11
C Uwchradd -
CH Uwchradd Iau - 11-14

A Ieuengaf - hyd at 7 oed
B Cynradd - 7-11
C Uwchradd Iau - 11-14
CH Uwchradd Hyn - 14 +

Dangosir y cynigion gorau a'r enillwyr yn yr Eglwys Gadeiriol Dylid anfon yr holl gynigion at Mr. J.N. Hughes, d/o Ystafell E3109, BBC, Llandaf, Caerdydd. CF5 1YQ, erbyn diwedd Ionawr 1988 gyda'r manylion canlynol :

A Enw a chyfeiriad yr ysgol
B Enw'r ymgeisydd unigol neu enw'r grwp
C Rhif yr adran
CH Dosbarth oedran

Mae'n bosib casglu'r cynigion ar ôl yr arddangosfa.

Byddai o gymorth mawr i'r trefnwyr os fyddai'r ysgolion sydd am ymgeisio yn gyrru gwybodaeth o rif y cynigion y maent am eu gyrru ym mhob dosbarth erbyn Tachwedd 14eg.

GWAHANOL ADRANNAU'R GYSTADLEUAETH

1 Murlun - unrhyw gyfrwng
2 Cywaith
3 Cynllun stamp - ar bapur A4
4 Cynllun medal/darn o arian - y cynllun i fod 6" mewn diamedr
5 Cynllun ffenest lliw - ar bapur A3. Ffenest o unrhyw ffurf
6 Poster ar gyfer yr arddangosfa a) A4 mewn du a gwyn; b) A3 mewn lliw

Mae'n rhaid i bob poster gynnwys y manylion canlynol -
Y teitl - Arddangosfa o Feibl William Morgan/Bible Exhibitior

Y dyddiad - Chwefror 24 - 9 Mawrth, 1988

Y lleoliad - Eglwys Gadeiriol Llandaf

7 Cynllun Bathodyn yr arddangosfa - y cynllun i fod o fewn cylch 2" mewn diamedr. Efallai yr atgynhyrchir y cynllun gorau er mwyn gwerthu a hysbysebu'r arddangosfa.
8 Cerdd Cymraeg neu Saesneg
9 Traethawd/Ysgrif/Ysgrifennu Creadigol yn Gymraeg neu Saesneg
10 Adran dylunio - dylunio a/neu wneud gwrthrych i ddathlu'r arddangosfa yn Eglwys Gadeiriol Llandaf.

---

**RHIFYN ARBENNIG Y NADOLIG**
- dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Rhagfyr/Ionawr i
2, Crystal Glen,
CAERDYDD
erbyn Tachwedd 25ain

# Plant Mewn Angen

Annwyl Olygydd,

Eleni fe gynhelir diwrnod **PLANT MEWN ANGEN** y BBC ar ddydd Gwener y 27ain o Dachwedd. Bu haelioni'r Cymry tuag at yr achos y llynedd yn ddigon o ryfeddod ond y peth pwysicaf yw i blant anghenus elwa llawer o'u caredigrwydd. Tybed, drwy golofnau'r papur bro, allwn ni ofyn i'r darllenwyr ddechrau meddwl am ffyrdd o godi arian at yr achlysur eto? Un peth, efallai, y dylem ni ei danlinellu yw bod croeso i unrhyw swm, o geiniog i bunt, o ganpunt i filoedd ac mae pob un geiniog yn mynd at y plant.

Os ydych am fwy o fanylion, cysylltwch â John Trefor, Caerdydd 610061, Est. 2040.

Mae ar blant mewn angen eich angen chi.

Gwyn Griffiths,
Uwch Swyddog y Wasg a
Chysylltiadau Cyhoeddusrwydd,
Cymru.

6, Cae Wern,
Glanwern,
Borth,
Aberystwyth,
Dyfed.

Annwyl Syr,

Mae Cylch Cinio Aberystwyth wedi lansio apêl tuag at adnewyddu ty yng Nghanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn.

Agorwyd y gronfa gyda chyfraniad o £500 yn y gobaith y bydd Cylchoedd Cinio eraill ledled Cymru yn ymuno yn yr ymgyrch ac yn helpu i gyrraedd y nôd o £10,000.

Gan nad oes yna gorff cenedlaethol yn gweithredu ar ran y Cylchoedd Cinio byddwn yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad i dynnu sylw at yr ymgyrch hon. Prin bod angen pwysleisio menter fawr Nant Gwrtheyrn i aelodau'r Cylchoedd Cinio. Byddai adnewyddu tŷ arall yn hwb sylweddol i'r gwaith yno.

Byddwn yn gwerthfawrogi cefnogaeth o bob rhan o Gymru i'r Apêl hon.

Wynne Melville Jones, Cadeirydd
Graham Rees, Ysgrifennydd.

---

17 Orchard Castle,
Y Ddraenen,
Llanishen,
Caerdydd.

Annwyl Syr,

Ymddangosodd erthygl gan Ann Beynon yn y Dinesydd yn gynharach eleni a dynnodd sylw at y ffaith fod rhai gwerthwyr tai wedi sylweddoli fod Cymry Cymraeg yn elfen bwysig yn y farchnad tai. O ganlyniad cynhwysir mewn rai hysbysebion ffeithiau o ddiddordeb arbennig i Gymry Cymraeg, e.e. fod Ysgol Gymraeg yn agos at y ty.

Gan fod y gwerthwyr tai yn dechrau sylweddoli y potensial am wneud arian mas ohonom ni, mae'n drueni nad ydym ni ein hunain eto wedi sylweddoli fod modd defnyddio'r gwerthwyr i Gymreigio golwg ein dinas: dylem fynnu fod eu harwyddion 'For Sale' yn troi'n ddwyieithog gydag 'Ar werth' yn flaenaf. Gofynnais i werthwr y 'Cardiff Group' am arwydd o'r math yma pan aeth ein ty ni ar werth eleni ac fe gydsyniodd yn syth i ddarparu un. Dim ond unwaith o'r blaen ydw i'n cofio gweld arwydd ddwyieithog yn y cylch yma (i Peter Alan roedd hwnnw'n perthyn) ond mae arwyddion dwyieithog yn gyffredin yn y Gogledd a'r Gorllewin. Pam ydym ni mor araf i'w mynnu?

Hywel Merfyn.



Arlwyo Avril
Partïon, ac Achlysuron Arbennig.
Darperir at unrhyw rif.
Rhywbeth at ddant pawb.
Bwyd ffres.
Prisiau rhesymol.
Ffôn 481001 (Caerdydd) am fwydlen.

# Anghenion Arbennig

**GALW AM UNED ASESU CYMRAEG AC AM UNED 'ARBENNIG'GYMRAEG I GAEL EI CHYDNABOD GAN DDE MORGANNWG YNG NGHYNHADLEDD MUDIAD YSGOLION MEITHRIN "Y PLENTYN AG ANGHENION ARBENNIG A'R GYMRAEG"**

Roedd y Gynhadledd hon yn eitha chwyldroadol - mynnodd yr hawl i blentyn ag anghenion arbennig i fyw ei fywyd yn 'normal' y tu fewn i'w deulu a'i gymdeithas a mynnodd yr hawl yn fwy chwyldroadol byth efallai iddo gael byw ei fywyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd yr holl siaradwyr ar y llwyfan yn Gymry Cymraeg, rhai wedi dysgu'r iaith. Llifai'r perlau o'r llwyfan a chawsant wrandawiad astud - rhai'n gwrando drwy help cyfieithu arbennig a chyfarpar clust effeithiol.

Byrdwn y Gynhadledd oedd rhoi cefnogaeth lwyr i'r plentyn ag anghenion arbennig trwy'i gefnogi yn y Cartref cyn mynd i'r ysgol; yn y Cylch Meithrin ac wedyn yn yr Ysgol.

Dr. Elunis Goodfellow, Diane Griffiths, Maria Tucker, Nerys Thomas a Margaret Knight dynnodd sylw'r cynadleddwyr ar sut gall meddyg teulu, ymwelydd iechyd, cynghorwr ar ddatblygiad plentyn, ffisio-therapydd ac arbenigwr chwarae gartref helpu'r plant 'arbennig' hyn i ddatblygu'u gallu hyd yr eithaf yn eu teuluoedd, oddi fewn i'w cymdeithas. Neb llai na'r Seiciatrydd Dafydd Huws oedd yn llywyddu'r rhan hon.

Mam i blentyn a nam ar ei chalon a mam i blentyn sy'n dioddef o Ddistroffi'r Cyhyrau dystiodd sut roedd Mudiad Ysgolion Meithrin yn gallu bod yn gefn i deuluoedd a phroblemau fel hyn. Roedd y plant hyn wrth eu bodd i gael bod gyda phlant eraill ac yn dysgu gyda help i ymdopi'n wych a'u hanhwylder. Roedd dawn dweud Gwen McFadyen a Delyth Dafydd yn gyfraniad teimladwy a gwerthfawrogol o waith y Mudiad i'r Gynhadledd. Tynnodd Elaine Pye sylw arbennig at y Cynllun Cyfeirio a redai M.Y.M. a'r PPA ar y cyd ac a gai ei ariannu gan Strategaeth y Swyddfa Gymreig a'r Gwasanaethau Cymdeithasol - y cynllun hwn eto yn tanlinellu hawliau'r rhieni a'r plant 'arbennig' hyn i gael byw bywyd 'normal'. O na fuasem yn gallu cael sicrwydd ariannu teilwng i gynllun godidog!

Sian Wyn Siencyn, Cynghorydd y Mudiad yn y De, oedd yn llywyddu'r cyfarfod hwn. Tynnodd sylw dro ar ol tro mai'r rhieni oedd yn gallu hawlio'r hyn a wyddent oedd orau i'w plant.

Tanlinellodd Richard Jones, Prif Ymgynghorydd Addysg i'r Gymdeithas Down's a lywyddai'r cyfarfod prynhawn mai rhieni hefyd oedd yn ennill y dydd i gyfannu plant ag anghenion arbennig yn yr ysgol. Roedd hyn yn digwydd ledled gwledydd Prydain. Sylweddolon ni bod yr hyn oedd yn digwydd yn Ysgol Gymraeg Coed y Gof, Caerdydd, yn hollol arloesol. Siaradodd Beryl Williams, yr athrawes yn yr Uned, yn rymus ac mae'i chyfraniad hi a chefnogaeth ei Phennaeth Ysgol, Mr. Tom Evans, yn hollol herfeiddiol i ddangos sut mae cymdeithas gyfan yn gallu gwerthfawrogi cyfannu plant ag anghenion arbennig i fywyd ysgol normal. Diolch yn fawr i Gerald Bate, Seicolegydd y Sir, am siarad yn ein Cynhadledd; i Mr. Gardner, Athrawes Ymgynghorol Plant dan Anfantais Gweld, am rannu'i swyn a'i gallu fel Arbenigwraig. Diolch i Sian Munro, Therapydd Llafar, am anfon adroddiad.

Llonnodd y Gynhadledd trwy glywed oddi wrth Mr. Alan Davies, Cyfarwyddwr Cynorthwy-ol yr Adran Addysg, bod traf-odaethau wedi bod ac y bydd cydnabod Uned Coed y Gof fel Uned Arbennig a'i chyplysu ag Uned Asesu yn cael ei drafod gerbron y Gweithgor Cymraeg yn y dyfodol agos.

Wedi llwyddiant ein Cynhadledd Anghenion Arbennig gyntaf ymdynghedwn i weithio'n galed i sicrhau hawliau sylfaenol i'r plant 'arbennig' hyn a'u rhieni.

# Mistar Alwyn!

Ar ol deg mlynedd fel Swyddog Datblygu'r Urdd yn Ne Morgannwg a Gwent, penderfynodd Alwyn Jones ddychwelyd i fro ei febyd, gan gymryd drosodd fel Swyddog Datblygu Meirion o Fedi ymlaen.

Mae'n fwriad gan Bwyllgor Sir yr Urdd i gyflwyno rhodd i Alwyn ar nos Wener, Rhagfyr 11eg, yn y Ganolfan. Os oes unrhyw unigolyn neu gangen o'r Urdd am gyfrannu tuag at y rhodd, mae croeso i wneud hynny. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i 'Urdd Gobaith Cymru' a'u hanfon i'r Ganolfan yn Heol Conwy cyn y 30ain o Dachwedd. Diolch yn fawr.

---

Urdd Gobaith Cymru

Dyddiadau Eisteddfodau De Morgannwg 1988 :

Eisteddfod Cylch Cynradd : Sadwrn, 12fed o Fawrdd. Ffurflenni cystadlu i fod i mewn cyn y 4ydd.

Eisteddfod Sir Uwchradd : Sadwrn, 26ain o Fawrth. Ffurflenni i fod i mewn cyn y 11eg.

Eisteddfod Sir Cynradd : Sadwrn, 26ain o Fawrth

Lleoliad yr Eisteddfodau i'w gadarnhau.

CYLCH CINIO'R BARRI A'R FRO

Erbyn hyn mae'r Cylch wedi cael dau gyfarfod hynod o lwyddiannus. A diwedd y mis hwn bydd cyfle i'r aelodau gael cwmni'u gwragedd pan ddaw Ray Evans, y Prifardd o Riwbeina, i'w hannerch. Y Llywydd eleni yw Alun Daniel ac mae'r rhagolygon am weddill y tymor yn addawol iawn. Y siaradwyr yn ystod 1988 fydd Ifor Rees, Meurwyn Williams, W.J. Jones, Illtyd Lewis a Brinley Jenkins. Os oes rhywun yn dymuno ymuno a'r Cylch ffoniwch yr Ysgrifennydd diwyd a phoblogaidd, Mr. Islwyn Jones, Caerdydd 594533.

CYFARCHION NADOLIG

Na, nid dymuno 'Nadolig Llawen' i bawb chwech wythnos yn gynnar yr ydym ni, ond cynnig cyfle i'n darllenwyr ddefnyddio tudalennau'r Dinesydd ar gyfer eu cyfarchion hwy. Mae croeso i chi lunio brawddeg neu baragraff bach - pennill, efallai - i'w gynnwys yn y rhifyn Nadolig fel cyfarchiad cynhwysfawr i'ch holl gyfeillion yng Nghaerdydd, a hynny am bris rhesymol dros ben, sef £2. Anfonwch eich Cyfarchion at Nans Couch, 2, Crystal Glen, Caerdydd, erbyn Tachwedd 23ain.


CAPEL SALEM, CANTON

NOS SADWRN, RHAGFYR 5ed

am 7.30 p.m.

**Sêr yn Salem**

Unwaith eto -

- Cyngerdd i helpu'r newynog

DEWCH I GEFNOGI A MWYNHAU

Arweinydd :
ARFON HAINES DAVIES

Tocynnau : £2.00



**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# PENARTH A DINAS POWIS

**Cymdeithas Gymraeg Dinas Powis**

Hwyl a digon o sbort a sbri i rhyw hanner cant o aelodau Cymdeithas Gymraeg Dinas Powis! - dyna nodweddion amlycaf nos Wener, Medi 18fed, pan deithiodd y criw draw i Abertawe i'r **Hwyrnos.** Roedd y lle'n llawn dop a phawb yn mwynhau'r bwyd blasus, y canu a'r dawnsio a'r gwmniaeth hyfryd. Wrth ddweud 'Nos Da' roedd parti o Lydawyr, parti bach o Loegr a'n, parti ni o Ddinas Powis yn unfryd fod hon yn noson i'w chofio. Rhaid mynd eto rhywbryd.

Cychwynwyd y Gymdeithas yn ffurfiol nos Lun, Hydref 5ed, gyda'r Swper Croeso yn Neuadd Sant Pedr. Daeth cynulliad raenus ynghyd i fwynhau noson a drefnwyd gan Mrs. Gill Lewis a'i chynorthwywyr. Roedd y bwyd yn dda - yn enwedig y bara gerllyg a'r byrddau'n ddigon o bictiwr. Estynodd Mr. Peter Davies, ein Cadeirydd, groeso cynnes i bawb yn aelodau hen a newydd ac yna fe'n diddanwyd gan Eluned Scourfield yn canu'r delyn a Glenda Jones (gynt Davies) yn canu alawon gwerin. Hefyd, cafwyd ymarfer côr fel paratoad i'r Noson Fawr pan fydd Clŵb y Dwrlyn o Bentyrch yn ymweld a ni. Diolchwyd i bawb am gyfraniad gwerth chweil gan Mr. Eifion Hopwood ein Llywydd.

**Bethel, Penarth**

Bore Sadwrn, Hydref 10fed, clywyd seiniau'r Gymraeg yn atsain drwy'r 'Paget Rooms' ym Mhenarth. Roedd hi'n Fore Coffi ac Arwerthiant Capel Bethel. Braf oedd gweld cymaint o'r aelodau a'r swyddogion wrthi'n brysur dan arolygiaeth y Gweinidog, y Parch Meurwyn Williams - pawb yn gwneud eu gorau glas i sicrhau llwyddiant y bore a swm sylweddol i'r coffrau. Gellir cyhoeddi fod y bore'n llwyddiannus dros ben - codwyd dros £600 o bunnau! Llongyfrchiadau i bawb a weithiodd mor galed dros yr achos, gyda diolch arbennig i

Mrs. Moyra Owen a Mrs. Winifred Llywelyn am drefnu popeth mor hwylus.

Eleni yn lle dod a ffrwythau i oedfa'r Cynhaeaf ym Methel anogwyd y plant a'r oedolion i ddod a chyfraniad i Gronfa'r 'Bone Marrow' - anhwyldeb truenus mewn plant. Cafwyd oedfa hyfryd a bendithiol i bob un a alwodd i mewn ar fore Sul arbennig. Y Parch Meurwyn Williams oedd yn gyfrifol am y Gwasanaeth ac yr oedd trefniadau adran y plant yn nwylo Mrs. Gill Lloyd, Arolygwraig yr Ysgol Sul. Wedi'r oedfa roedd cinio o gawl a bara i bawb ac roedd yr arian am hwn hefyd yn mynd tuag at Gronfa 'Mer yr Esgyrn'. Trosglwyddwyd £160 i'r Gronfa fel cyfraniad Bethel o'r Wyl Ddiolchgarwch.

**Cymdeithas 'Y Dwrlyn, Pentyrch a Dinas Powis yn dod ynghyd - Noson Gystadleuol**

Hydref 15fed daeth y ddwy Gymdeithas ynghyd yn Ninas Powis i ganu, barddoni, actio, darlunio - yn wir tipyn o bopeth. Islwyn 'Gus' Jones oedd y Beirniad ac roedd yn bleser i'w groesawu ef ac Ann ei wraig i'n plith. Roedd yna feirdd o fri yno ac roedd y canu'n wirioneddol yn codi'r to - yn enwedig pan aeth y corau ati i ganu geiriau gwreiddiol ar yr emyndon 'Bryn Myrddin'. Un o'r uchelfannau'r noson oedd grŵp gwerin Dinas Powis yn ceisio dylanwadu ar y beirniaid gyda pherfformiad rhyfeddol o gaboledig o 'Mae ngharиad i'n Fenws'. Roedd Janet Davies (D.P.) ac Ifan Wyn o Glwb y Dwrlyn yn ysgubol fel adroddwyr dan 6 oed!! ac fe ddylsech chi weld Brian Davies mewn 'drag'. Peidied neb a mynd yn agos at feddygfa Alun Daniel - brawychus a dweud y lleia! Noson hyfryd - digon o hwyl i bawb. Braf i ni yn Ninas Powis oedd cael y pleser o groesawu'r Dwrlyn er mwyn selio'r fuddugoliaeth cafwyd llynedd - ond trwy hynawsedd 'Gus' - 'draw gêm' oedd hi!!

# APÊL

Peth braf yw clywed rhywun yn troi atoch chi ar bnawn prysur yn Stryd y Frenhines gan ddweud "Wyddwn i ddim bod hwn-a-hwn wedi priodi neu ddyweddio wedi cael babi neu swydd newydd, nes i mi weld yr hanes yn Y Dinesydd.

Ydy, mae'n braf. Ond cyn i'r hanesyn ymddangos yn y papur mae'n rhaid i rhywun ei gofnodi, ac er bod ein gohebwyr yn gwneud eu gorau glas i hel y newyddion diweddaraf, y gwir yw nad oes gennym yr adnoddau angenrheidiol i sicrhau bod pob hanesyn diddorol yn cyrraedd ein clustiau. A'r perygl yw ein bod yn colli llawer iawn o ddigwyddiadau sy'n haeddu sylw.

A dyma ni yn troi atoch chi, ein darllenwyr. Teimlwn y dylem bwysleisio un peth yn arbennig wrth apelio atoch - peidiwch a bod yn rhy swil i sôn am achlysur arbennig yn hanes eich teulu chi eich hunan. Mae'n demtasiwn dweud "O does neb am glywed amdanom **ni**" ond y gwir yw mai dyna union ddiddordeb y rhan fwyaf ohonom.

Ysgrifennwch at Nans Couch, 2, Crystal Glen, Caerdydd, neu ffoniwch Shân Emlyn, Caerdydd 751469 - a fe wnaiff hi'r gwaith drostoch chi!

Yng Nghaerdydd ar Hydref y 10fed priodwyd Robert Thomas mab Mr. a Mrs. Mervyn Thomas Llandaf a Sioned, merch Mr. a Mrs. Gethin Jones, Abergwaun. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddau deulu.

# Colofn Shân Emlyn



Colofn Shan

Ond ydy'r flwyddyn hon wedi gwibio 'dwch? Dyma hi a'r Nadolig ond cwta fis i ffwrdd Brawychus oedd sylwi y dydd o'r blaen bod addurniadau'r Nadolig eisoes wedi'u hongian ar strydoedd Caerdydd. Wyddoch chi be', mi rydwi ar 'i hôl hi eleni. Ydy, mae'r presanta wedi'u prynu i gyd bron, ymhell yn ôl yn y Sioe Amaethyddol, tri llond bag plastig ohonynt. Nid wyf wedi edrych arnynt oddiar hynny. Bydd raid treulio diwrnod yn penderfynu pwy sy'n cael be, a threulio oriau yng nghanol papur pacio, papur llwyd, siswrn, selotep a labeli. Mae 'na dri câs gohenydd yng ngwaelod y wardrob yn araf lenwi dros Santa i'r tri arall o'r teulu. Fel arfer fe fyddaf wedi hen sgwennu'r Cardiau Nadolig erbyn hyn, ond nid yn unig, nid wyf wedi dechrau ar y gwaith, ond does gen i ddim cardiau eto. O leia, rwyf newydd gysylltu â ffrind yng Nghasnewydd ac archebu pentwr o Gardiau Nadolig Eisteddfod Casnewydd. Hysbys bach am ddim ichi gyfeillion Casnewydd! Dyna ddiwrnod arall y bydd raid imi ei neilltuo i arwyddo'r cyfan, yn enwedig o gofio y bydd raid sgwennu llith ar hanner cant ohonynt i'w hanfon i'r Wladfa (Ydwi wedi sgwennu pwt erioed 'dwch, heb gynnwys y gair yna!).

Mins peis! O nefi blw, bydd raid neilltuo diwrnod i'r gorchwyl honno hefyd, pan fydd y gegin wedi'i sgeintio i gyd â blawd er mwyn gwneud digon i ni a pharti Nadolig Y Dinesydd. Diwrnod ofnadwy yw'r diwrnod hwnnw. Tri tun sydd yma, felly fesul tri dwsin y byddaf yn eu gwneud. Cyn diwedd yr orchwyl, nid yn unig y bydd haen o flawd dros bobman yn y gegin, ond mi fydd 'na lwybyr gwyn o'r gegin trwy'r cyntedd at y ffon, mi fydd handlan hwnnw hefyd yn siwr o fod yn glaer wyn!

Fu dim raid imi wneud cacen llynedd gan i Mari ei gwneud. Yn ddistaw bach, rwyf yn gobeithio y gwnaiff hi'r un peth eleni, mi anfonai gopi o'r Dinesydd iddi! Ryda ni eisoes wedi cael gwadd ati hi i'r Felinheli dros yr Ŵyl ac mae hi wedi prynu'r pwdin o Marks Llandudno. Ond yda ni'n gwneud gormod o orchest o'r Ŵyl; wedi'r cyfan tydio ddim mwy na chinio Sul mwy na'r arfer. Mae'n rhaid imi gyfaddef bod sgwennu hyn o lith wedi codi dipyn bach bach mwy o awydd arna i i fynd ati i ymrafael a'r gwahanol dasgiau. Sut y bydd hi arnai, wn i ddim. Yr unig ffordd i chi wybod ydy pan gyhoeddir dyddiad a lleoliad Parti Nadolig y Dinesydd, ydy dwad draw i gefnogi hwnnw a gweld a fydd yno fins peis. Amser byr a ddengys!

# Eisteddfod Casnewydd

Cystadleuaeth Tlws Dysgwr y Flwyddyn

Bwriedir cynnal y gystadleuaeth arbennig hon fel rhan o weithgarwch Is-bwyllgor Dysgwyr Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd yn ystod 1988.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun y cynhaliwyd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn y tro diwethaf, a'r buddugol y tro hwnnw oedd Alan Whittick.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw ddysgwr dros 21 mlwydd oed, nad oedd yn gallu cynnal sgwrs ar unrhyw lefel yn y Gymraeg dair blynedd yn ol, ond sydd erbyn hyn yn siarad yn eithaf da.

I gystadlu, rhaid gyrru am ffurflen gais, ac yna, rhaid llunio llythyr, neu draethawd (tua 300 gair) yn gynnwys yr elfennau a ganlyn :

1. Gwybodaeth amdanoch chi eich hun - eich teulu a'ch diddordeb
2. Eich rhesymau dros ddysgu'r Gymraeg
3. Sut y mae'r Gymraeg wedi effeithio ar eich bywyd
4. Eich profiad yn dysgu'r Gymraeg
5. Eich gobeithion ar gyfer y dyfodol.

Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 22 Chwefror 1988 a chynhelir rowndiau rhanbarthol cyn y rownd genedlaethol ei hun a gynhelir yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Cynigir gwobr o Dlws a £150 i'r buddugol, ynghyd a gwobrau eraill i'r rhai a ddaw yn ail, trydydd a phedwerydd.

Ceir manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth :

J. Idris Evans, Trefnydd, Swyddfa'r Eisteddfod, Moderator Wharf, Rhodfa'r Brenin, Casnewydd, Gwent. NP9 (0633) 54917

Gweithgareddau ym Mhabell Blas Cas

Mae'n arferiad gan Is-bwyllgorau Ieuenctid yr Eisteddfod Genedlaethol estyn gwahoddiad i nifer o grwpiau, boed yn rhai poblogaidd trwy Gymru gyfan neu yn rhai lleol, i gymryd rhan yn Rhaglen Swyddogol y Babell Ieuenctid ar Faes yr Eisteddfod.

Bwriedir newid ychydig ar y drefn ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd, a gwahoddir grwpiau trwy Gymru gyfan sydd a diddordeb mewn perfformio ym Mhabell Blas Cas gysylltu a ni. Mae hyn yn agored hefyd i'r grwpiau sydd eisoes wedi ennill eu plwy' yng Nghymru.

Ni ellir, yn naturiol, sicrhau y bydd lle ar gyfer pob grwp a wnaiff gais, ond yn sicr y bydd hyn yn gyfle i'r grwpiau newydd a ffurfiwyd yn ystod y misoedd diwethaf gael cyfle i nodi eu presenoldeb ym myd canu cyfoes Cymru.

Os oes gennych ddiddordeb, byddai'n dda derbyn gair oddi wrthych yn nodi enw'r grwp, y math o gerddoriaeth, a'r dyddiadau yr ydych ar gael yn ystod y cyfnod 30 Gorffennaf - 6 Awst 1988 i gymryd rhan yn y gweithgareddau.

Dylid anfon y manylion at :

J. Idris Evans, Trefnydd,
Swyddfa'r Eisteddfod,
Moderator Wharf,
Rhodfa'r Brenin,
Casnewydd, Gwent.
NP9 1EX

## LLONGYFARCH



Llongyfarchiadau i Susan, merch Joan a Ben Thomas, Cyncoed a Stewart Moore o Lanelli. Fe'u priodwyd yng Nghaerfyrddin ar ddydd Sadwrn Hydref 17eg. Penwythnos y glaw mawr oedd hwnnw ond daeth yr haul i'r golwg i wenu ar y ddau cyn i'r cymylau or-lifo. Cafwyd dathliad hapus dros ben mewn gwesty yn Hendygwyn ar Daf ac yna aeth Mr. a Mrs. Moore i dreulio gwyliau mewn man sychach a thwymach (gobeithio) na Chymru ym mis Hydref. Ar ol dychwelyd byddant yn gwneud eu cartref yn Pwll, ger Llanelli. Dymunwn hir oes a phob bendith iddyn nhw.



Priodwyd Alison, merch y Parch a Mrs. D. Haydn Thomas, Llandaf, a John Keys o Londonderry, ar ddydd Sadwrn, Hydref 17eg. Roedd yn braf gweld cynifer o deulu John wedi croesi'r môr o Ogledd Iwerddon i ymuno â theulu Alison ynghyd a chyfeillion y ddau yng Nghapel Salem, Canton, y bore hwnnw. Gweinyddwyd gan dad y briodferch, Gweinidog y Capel, gydag Edwin Lloyd Jones wrth yr organ. Cafwyd neithior hapus yng Ngwesty'r Park cyn i'r ddau hedfan i dreulio gwyliau ar Ynys Tenerife. Dymunwn briodas dda, hir oes a phob hapusrwydd i Alison a John.

## Isho Gwaith?

SWYDD RHAN AMSER

Mae angen GWEITHIWR/WRAIG rhan amser ar gyfer y Llyfrgell Sleidiau i weithio 24 awr yr wythnos i gasglu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer

LLYFRGELL SLEIDIAU A GWYBODAETH Cyngor y Celfyddydau sy'n ymdrin â'r CELFYDDYDAU GWELEDOL A CHREFFT

Gellir gweithio oriau hyblyg. Anfoner ceisiadau erbyn Tachwedd 30ain i :

Jane Golts,
Cyngor y Celfyddydau,
Stryd yr Amgueddfa,
CAERDYDD. CF1 3NX
Tel. 394711

Mae Cyngor y Celfyddydau yn Gyflogwyr Cynnig Cyfartal.

ANRHEGION NADOLIG DELFRYDOL

Cerfwaith Coed : Llwyau Serch Llwyau'r Mabinogi a Marchogion Brenin Arthur : Croesau a Bwystfilod Celtaidd etc.

Pob prynhawn

Hywel Davies,
61, Oakfield St.,
Y Rhath,
CAERDYDD.
Tel. 473244

YN EISIAU

Person cyfrifol i ddod i'r ty i edrych ar ol 3 o blant, 5 diwrnod yr wythnos, yn ardal Penylan; Bachgen 8 oed, merch 5 oed (yn yr ysgol), merch 2½ (Cylch Meithrin 3 bore)

Ffoniwch CAERDYDD 498928 ar ol 6 p.m. am fanylion pellach.

## Canol Caerdydd

Wyddech chi nad oes dim modd i chi droi i'r chwith o Heol Eglwys y Santes Fair i Stryd Caroline? Na? Wyddwn i ddim chwaith nes i mi ddod wyneb yn wyneb â'r arwydd mawr, coch y diwrnod o'r blaen a gorfod ail-gyfeirio'r car heibio'r Arglwydd Bute ar ei ynys unig i chwilio am ffordd arall i gyrraedd y meysydd parcio yn Bridge St. Dyma benderfynu yn y fan a'r lle mai gadael y car yn Dumfries Place y gwnawn i y tro nesa. Ond, yno, roedd sioc arall yn fy nisgwyl. Dwi wedi gyrru ar hyd y stryd honno droeon heb weld na phentwr o frics na chymysgwr concrid yn unman - yn awr, dros nos, mae 'na adeilad anferth newydd o frics coch a melyn wedi ymddangos. Dwy fil ar bymtheg o droedfeddi sgwar o swyddfeydd, medden nhw. Sut yn y byd y codwyd y fath eglwys gadeiriol fasnachol heb i mi sylwi? A pha bryd y chwalwyd yr adeiladau ar gornel Heol y Frenhines rhwng y ddau hen Alhambra, Y Cory a'r Capital?

Mae gofyn bod yn gyflym i ddilyn yr holl ddatblygiadau sy'n gweddnewid canol y dref. Efallai bod yr hen Fute wedi cynefino erbyn hyn a'i gymdogion newydd, yn deganau a sglefrwyr ac ymwelwyr yr Holiday Inn a minnau wedi derbyn, o'r diwedd, bod Woolworths wedi diflannu a bod Banc y TSB yn dweud 'Ie' wrth bawb lle bu siop Evan Roberts gynt yn cynnig golygfa ardderchog o'r Castell o'r caffi ar y llawr cynta'. Ond cyn inni gael amser i gynnu gwynt a dweud 'BHS' bydd dwsinau o siopau newydd yn amgylchynu 'atrium' (mae angen geirfa newydd hefyd) ar ei hen safle, a mwy o siopau eto gyferbyn a nhw ar y tir lle bu Allders ers talwm.
A sôn am erstalwm, ydych chi'n cofio'r Farchnad Agored yn Yr Ais? Druan o'r tatws a'r moron, mae'n rhaid iddyn nhw fudo unwaith eto, o Heol Dafydd i gartre newydd o fewn tafliad tomato i Lyfrgell y Dref - sy, wrth gwrs, yn symud o'r Ais, i adeilad urddasol y tu cefn i Debenhams

Mae'n gymhleth. Cofiwch chi, dydw i ddim yn gwrthwynebu newid a datblygiad fel y cyfryw - ddim ond yn rhyfeddu at gyflymdra y dymchwel a'r codi yng nghanol y dref. Ond mi ddyweda i un peth - mi fyddai'n cadw llygad barcud ar yr hen gastell o hyn ymlaen, rhag ofn i hwnnw ddiflannu dan fy nhrwyn.

Gwersi piano, theorie a phib

Mrs. Almut Davies - L.R.A.M
61, Oakfield Street
Y Rhath

Ffôn: 488399

Cysylltwch o fis Awst ymlaen

## Rhydderch

Mi gollwyd clamp o gymeriad o fywyd y brifddinas ar Dachwedd 4ydd pan fu farw Rhydderch Jones. Diwrnod Nadolig eleni byddai wedi dathlu ei benblwydd yn 52 oed. Bywyd rhy fyr. Cannwyll a losgodd i'r pen yn llawer rhy fuan.
Ond yn y wlad yr oedd gwreiddiau Rhydderch, er iddo fyw'r rhan fwyaf o'i fywyd mewn dwy brifddinas. Fe'i ganed a'i fagu - a'i gladdu - yn Aberllefenni. Yno mae ei fam a'i chwiorydd yn dal i fyw. Yma y mae ei weddw, Irene.

Fel Danny Kaye, o bawb, roedd Rhydd yn sgut am ddifyru, yn hoff ofnadwy o blant, a'i fryd o hyd ar fod yn lawfeddyg.
Aeth o Ysgol Tywyn i Ysbyty Guy's yn Llundain, i fod yn feddyg, ond gadawodd ar ol blwyddyn, ac ymroi gydol gweddill ei oes i len a chelfyddyd - profiad cyffelyb yn hyn o beth i'w arwr T.H. Parry-Williams. Aeth i'r fyddin, ac yna i Goleg y Normal, pan oedd Gwenlyn Parry newydd adael, ond roedd Ryan yn cydoesi ag o. Dilynodd y ddau Gwenlyn i Lundain, ond roedd hwnnw wedi mynd yn ol i Gaernarfon. Bu Rhydd a Ryan yn gweithio'n ddygn i Gymry Llundain, yn canu ac actio ac adrodd. Troes Rhydderch ei law at sgwennu; at gyfieithu **Charlie's Aunt** ac **Offshore Island** Marganita Laski, a ddaeth yn ffrind iddo.
Dechreuodd gystadlu ar sgwennu drama yn y genedlaethol, a dwad yn gyfaill gwiw i Gwenlyn yno. Chafodd **Petalau yn y Gwynt** ddim gwobr, nac **Edau Frau**, ond troes y gyntaf yn y man yn ddrama deledu, **Broc Mor** a chafodd **Edau Frau** ei chynhyrchu gan Lorraine Davies a welodd dalent Rhydderch.

Ceisiodd Rhydderch dorri trwodd i fyd teledu gyda **Mr Lolipop M.A.**, ond dim ond pan ddangosodd BBC2 ddiddordeb yn y fersiwn Saesneg y cafodd y gwaith dderbyniad gan BBC Cymru. Roedd Rhydderch hefyd dan ei gyfaill clos Meredydd Evans, yn tyfu'n Gynhyrchydd a Chyfarwyddwr medrus ym myd adloniant ysgafn, mewn cyfresi arloesol fel **Hop y Deri Dando** a **Disg a Dawns** a **Lloffa.**
Dechreuodd sgwennu cyfresi comedi, yn enwedig **Stiwdio B, Fo a Fe,** a **Hafod Henri** ar y cyd gyda Gwenlyn.
Sgwennodd ddrama lwyfan, a aeth ar daith, ac i'w gyfrol **Mewn Tri Chyfrwng,** sef **Roedd Catarina o Gwmpas Ddoe.** Roedd wedi ei lleoli yng Ngroeg; Groeg ac Iwerddon oedd ei ddwy hoff wlad. Mae ganddo ddrama arall am Roeg, **Manolis,** yn barod i'w ffilmio, a Terry Savalas a diddordeb mewn cymryd rhan ynddi.

Un o'r pethau gwychaf a phwysicaf a ddigwyddodd i Rhydd oedd priodi Irene, bum mlynedd yn ol. Rhoes hi drefn ar ei fywyd, yn ogystal a gorfoledd iddo. Dyma gychwyn ei gyfnod mwyaf toreithiog, yn enwedig y ddwy flynedd ddiwethaf pan oedd hi wedi rhoi'r gorau'n llwyr i'w swydd yn yr ysbyty. Dyma pryd y sgrifenwyd **Gwenoliaid, Manolis** a'r ddrama wych roedd y ffilmio arni'n cychwyn ddiwrnod marw ei hawdur, sef **Lliwiau.** Y lliwiau oedd rhai peli snwcer y gem oedd ei dad yn gymaint o gianstar arni

Cannwyll fer oedd un Rhydderch ond un lachar er hynny, ac un a losgodd yn fwy llachar nag erioed yn y cyfnod olaf yma, cyn iddi gael ei diffodd - o leiaf i lygaid dynion.

G.P.J.

Oherwydd amgylchiadau arbennig,gorfu i ni hepgor 'Bwth Rwth' am y mis hwn. Rydym yn ddiolchgar i Ruth am ei chyfraniad.
Gol.

## Coffáu Dau Weinidog

Coffhawyd dau o gyn-weinidogion amlwg a fu'n gweinidogaethu am dros ddeugain mlynedd gyda'r Bedyddwyr yn y Brifddinas yn y Tabernacl, Caerdydd ar lleg o Dachwedd.

Yn ystod gwasanaeth y bore o dan arweiniad gweinidog presennol yr Eglwys, y Parch Raymond Williams, dadorchuddiwyd cofeb i'r diweddar Barchedigion J. Williams Hughes a D. Myrddin Davies.

Brodor o Frynhyfryd, Abertawe oedd y Parchedig J. Williams Hughes a ddaeth i rannu'r weinidogaeth yn y Tabernacl yn 1926 gyda'r Parchedig Charles Davies. Gadawodd Gaerdydd yn 1936 i fod yn Athro Groeg yng Ngholeg yr Enwad ym Mangor a saith mlynedd yn ddiweddarach daeth yn Brifathro'r Coleg hwnnw.

Yn y Garnant, Dyffryn Aman, y ganed ei olynydd, y Parchedig D. Myrddin Davies. Bu'n weinidog y Tabernacl drwy gyfnod du y Rhyfel tan 1967. Cofir am ei gyfraniad cyfoethog i fywyd crefyddol y Brifddinas ac yn enwedig ei gefnogaeth frwd i Gymreictod Caerdydd.

Dadorchuddiwyd y gofeb i'r ddau gymwynaswr hyn a wasanaethodd enwad a chenedl yn ddiflino gan Mrs. Menna Thomas, nith y Parchedig Myrddin Davies, sy'n aelod yn y Tabernacl. Darllenwyd geiriau'r gofeb gan fab y Parchedig J. Williams Hughes, y Dr. Edward Williams Hughes.

Darllenwyd rhannau o'r Ysgrythur gan Mrs. Nansi John a oedd yn aelod o'r grwp cyntaf a fedyddiwyd gan y Parchedig J. Williams Hughes a Mrs. Eluned Rook, un o'r grwp a fedyddiwyd gan y Parchedig D. Myrddin Davies.

Ymhlith y cyn-weinidogion eraill y ceir cofebau iddynt yn y Tabernacl y mae'r enwog Christmas Evans a'r Parchedigion David Jones, Nathaniel Thomas a Charles Davies.

# SÊR Y DINESYDD


EIRY PALFREY

**ARIES:** Amynedd piau hi'r mis hwn. Bydd angen i chi eistedd i lawr yn dawel a thrin a thrafod ein problemau yn bwyll-og a synhwyrol. Bydd rhaid trafod i gyrraedd at ddeall-twriaeth gwell. Bydd gennych ddigon o ddisgyblaeth a dyfal-barhad i fod yn llwyddiannus iawn yn eich gwaith. Ceisiwch beidio a gorwario faint bynnag fydd y demtansiwn.
**TAURUS:** Rydych chi'n teimlo'n gariadus iawn y mis hwn, ac os ydych heb gariad dylech ddod o hyd i un nawr. Fe allech syrthio am rywun anarferol iawn. Dylai'ch sefyllfa ariannol wella'r mis hwn hefyd, yn enwedig os ydych mewn partner-iaeth. Dyma'r mis i gael gwared o unrhyw elfennau yn eich bywyd sy wedi'ch dal yn ôl yn y gorffennol.
**GEMINI:** Bydd pethau braidd yn rhwystredig ddechrau'r mis gan fod Mercher eich planed personol chi yn teithio tuag yn ol yn eich siart, ond daw pethau'n well ar ôl y 7fed, ac yna mi fydd hi'n amser torchi llewys a chanolbwyntio ar eich gyrfa. Byddwch yn llawn bywyd gyda digon o ynni dros ben i fwynhau tipyn o gymdeithasu gyda'ch ffrindiau.
**CANCER:** Bydd raid newid cwrs eich gyrfa bellach a rhoi'r gorau i hiraethu am yr hen ddyddiau. Os ydych wedi methu mewn rhywbeth yn ddiweddar peidiwch ag wylo mwy, trowch ein cefn ar y llanast ac ail-ddechreuwch gydag arddeliad. Mae sawl cyfle newydd ar y gorwel ond i chi gael digon o hyder i'w cymryd.
**LEO:** Yn y cartre bydd eich problemau mwyaf y mis hwn, efallai bydd aelod o'r teulu yn peri pryder i chi, neu efallai bydd angen trwsio'r ty neu rai o'r peiriannau sydd ynddo. Hwyrach ei bod hi'n bryd i chi symud! Daw pennod yn eich bywyd i ben ar y 5ed. Bydd y cymylau'n codi ar ol y 22ain ac mi ddylech gael cyfnod hwyliog a chymdeithasol.
**AQUARIUS:** Yn ara deg mae ennill tir ac amynedd piau hi i chi'r mis hwn. Peidiwch â gadael i dâp coch a phobl mewn awdurdod eich blino, gwenwch a byddwch yn boleit - mi fyddwch chi ar eich ennill yn y pen draw. Gall newid yn y cartre eich blino, ond bydd raid addasu a fe ddaw daioni ohono maes o law. Mae rhamant yn yr awyr hefyd!
**PISCES:** Dewch allan o'ch cragen a dwedwch beth sy'n eich meddwl, gall eraill ennill o wrando ar eich syniadau a chynlluniau. Mae eich meddwl yn glir a deallus ar hyn o bryd. Os am fentro i fyd busnes bydd hwn yn fis ardderchog i wthio'r cwch i'r dwr. Fe allai hwn fod yn fis llwydd-iannus i chi yn ariannol.
**VIRGO:** Bydd y planed Mercher yn chwarae triciau di-ri gyda'ch arian ddechrau'r mis. Gellwch ddisgwyl gweld siec-iau'n hwyr yn cyrraedd, camgymeriadau yn eich cyfrif banc, neu ddyledion annisgwyl. Daw pethau'n well ar ôl y 6ed. Am weddill y mis bydd eich teulu a'ch cartre'n bwysig iawn i chi. Cyfnod ardderchog i baentio a phapuro cyn y Nadolig.
**LIBRA:** Mi fyddwch chi'n disgleirio ym mhob agwedd o'ch bywyd y mis hwn, yn y gwaith, yn y cartre, yn gyhoeddus, yn gymdeithasol. Ond peidiwch â gadael i'r holl lwyddiant fynd i'ch pen, cofiwch gadw'r ddwy droed yn solet ar y llawr. Mi fydd hi'n fwy anodd nag arfer i wneud penderfyniadau y mis hwn. Byddai'n ddoeth ymgynghori a rhywun ynglyn ag un penderfyniad pwysig fydd rhaid ei wneud.
**SCORPIO:** Bydd hwn yn fis i'w gofio pan fydd raid i chi wneud sawl penderfyniad pwysig. Gall rhywun sy'n sychedig am bwer achosi problemau i chi. Peidiwch ceisio dylanwadu ar sefyllfa sy allan o'ch rheol-aeth - gadewch i ffawd benderfynu drosoch. Bydd gennych ddigon o ynni i hyrwyddo'ch gyrfa, ond peidiwch da chi a chodi gwrychyn neb.
**SAGITTARIUS:** Mis rhamantus fydd hwn, yn enwedig os ydych chi'n chwilio am gariad. Bydd lwc o'ch cwmpas ym mhob man nawr. Dylai fod gennych ddigon o arian er byddwch yn tueddu i'w wario fel dŵr. Dylai hwn fod yn gyfnod creadigol iawn hefyd, felly gwnewch y gore o'ch gallu i ennill y sylw a'r ganmoliaeth sy'n ddyledus i chi.
**CAPRICORN:** Hen hydref eitha blin fu hi hyd yn hyn, ond daeth haul ar fryn o'r diwedd! ac os bu biwrocratiaeth a thâp coch yn eich blino yn ddiweddar gellwch ddatrys y dryswch o'r diwedd. Cymrwch hoe fach i fwynhau ac ymlacio gyda'ch ceraint. Dylai hwn fod yn gyfnod llewyrchus - ewch i siopa a gwariwch, rydych chi'n haeddu tipyn o sbri!


'Modryb' neu 'Famgu' gyflogedig yn ardal Llandaf am gyfnodau byr yn ystod y flwyddyn; i ofalu am y tŷ, y ci, a Sion (deunaw mis).
Hefyd, cyfarfod y bws ysgol a gwarchod y ddau blentyn hynaf tan 5.30.
Am fanylion pellach ffoniwch - Caerdydd 567937



**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**







A aeth pum mlynedd heibio? Mae'n anodd credu fel y gwibia'r blynyddoedd heibio. Ond mae'n ffaith, fe aeth pum mlynedd heibio oddiar i S4C oleuo'r sgrin am y tro cyntaf am 6 o'r gloch ar nos Lun, Tachwedd 1af, 1982. Erbyn hyn mae'n anodd cofio sut roedd hi arnom heb S4C. Ac yn ystod bywyd y Sianel bu twf a chynnydd cyson a sylweddol.

Nid nifer yr oriau a deledir yn unig sydd wedi tyfu. Bu cynnydd aruthrol yn nifer y staff a gyflogir gan S4C o tua deugain ar y noson agoriadol i ymron gant heddiw. (Cafodd Y Dinesydd y pleser o groesawu newydd-ddyfodiaid i Gaerdydd yn gyson yn sgil y cynnydd hwn). Ehangodd tiriogaeth brics a mortar S4C unwaith yn barod, gan gymryd drosodd 30 Heol yr Eglwys Gadeiriol, cartref cyntaf y Cyd-bwyllgor Addysg, yn ogystal a'r cartref gwreiddiol yng Nghlos Sophia. O bryd i'w gilydd, yn ystod y pum mlynedd, mae rhai ohonom wedi gweithio yn rhif 14 a 25 o'r un heol. A rhaid peidio ag anghofio y pedwar aelod o Uned Dechnegol Mentrau sy'n llafurio yn Sgwar Mount Stuart. Ond bellach aeth y fangre estynedig hon yn rhy fach a thrown ein golygon at aelwyd newydd. Bu gweithwyr wrthi'n ddyfal ers misoedd yn adnewyddu'r adeilad nobl ar ochr arall y geg i Glos Sophia gan ymestyn ato'n helaeth. Y bwriad yw y bydd tua 30 o'r staff yn symud 'ar draws y lon' erbyn diwedd Tachwedd ond bydd y Ganolfan Reoli, y stiwdio gyhoeddi a'r Dderbynfa i S4C yn parhau yn yr adeilad presennol.

I Owen Edwards, Cyfarwyddwr S4C, mae hon yn garreg filltir arall yn hanes y Sianel. "Un o'r boreau odiaf yn ystod fy ngyrfa oedd hwnnw yn gynnar yn Ebrill 1981 pan ddechreuais ar fy swydd newydd. Tipyn o newid oedd dod o'r BBC gyda'i holl staff, swyddfeydd ac offer i ystafell gefn foel yn swyddfa'r IBA yn Heol yr Eglwys Fair. Cadair a desg ac, yn bwysicach na dim, Mair Owen f'ysgrifen-yddes. Na, mae pethau wedi newid yn aruthrol ond, diolch am hynny, mae Mair yn dal yn un o heolion wyth S4C".

Fe sylwch, wrth fynd heibio Clos Sophia nad oes modd croesi o un adeilad i'r llall dan do. Y gobaith yw y bydd SuperTeds ar y staff yn hedfan o un rhan i'r llall yn ddigon cyflym i beidio â gwlychu pan mae'n bwrw. Darperir ambarels ar gyfer y Wil Cwac Cwacs! Ond, erbyn meddwl, yr anifail mwyaf buddiol fyddai zebra.

Aled Islwyn.

# Barddoniaeth

GALWAD Y MÔR

(Atgofion am deithiau hyfryd yn ystod yr haf o Benarth i Ilfracombe, ac atseiniau o'r gan swynol 'Pryd cawn ni godi angor?' a fu ar raglen **Helo Bobol** dro yn ôl)

Mae haul ac awel ar y môr,
A diwrnod gwych yn agor,
O gad brysurdeb blin y dref
'Pryd cawn ni godi angor'?

Balmoral braf neu'r Waverley
Sy'n barod 'nawr i'th gludo;
I Wlad yr Haf a Dyfnaint deg,
Mae'n bryd i ti ymfudo!

Cei olwg glir ar fro Penarth,
A'r Larnog mwyn a'r Barri;
Teg edrych ar gynefin dir,
Ni fyddi di'n dyfaru.

Cei weled eto Porlock Bay,
A Foreland a'i oleudy,
A Lynton lan, lle gynt bu gwae,
Llifogydd di-dosturi.

Cei weld castelli creigiog serth,
A'r ddau 'hen grogwr' enwog,
Tawelwch swynol Ilfracombe
O fwrlwm trefi lleidiog.

Wrth gerdded hyfryd rodfa'r Torrs,
Cei weld arfordir Cymru,
Ac yno, yn y pellter draw,
Hen ynys hynod Lundy.

Wel, tyrd a gad d'orchwylion mân
Beth am chwe awr o forio?
A haul ac awel fyw o'th blaid
Cei ddydd, yn siwr, i'w gofio.

**Larnog** : ffurf arall ar enw 'Lavernock'
**Foreland** : goleudy Foreland Point
**Lynton...llifogydd** : Cyfeiriad at y llifogydd dinistriol a fu yn Lynton a Lynmouth yn haf 1953.
**Castelli creigiog** : sef 'The Valley of the Rocks'
**Y ddau 'hen grogwr'** : mynyddoedd 'The Great Hangman' a'r 'Little Hangman', yn ymyl Combe Martin.
**Rhodfa'r Torrs** : Y Torrs Walk enwog yn Ilfracombe yn ymylu ar y mor, ac yn cynnig golygfeydd ardderchog; rhan o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
**'Chwe awr o forio'** : y daith i Ilfracombe ac yn ôl i Benarth (ar y môr)

D.R. GRIFFITH, Penarth


**Huw Roberts** BSc, ACMA
*Cyfrifydd*

CYFRIFYDD I'R CYFRYNGAU

Mae Huw Roberts, Cyfrifydd S4C am bum mlynedd wedi ffurfio busnes ei hunan yn canolbwyntio ar y Cwmniau Teledu a Fideo sydd wedi ymsefydlu yn Ne Cymru ers dyfodiad S4C. Yn ogystal, mae Huw yn gwneud gwaith treth, pensiynau a morgeisi i unigolion. Mae'r busnes yn un teuluol gyda'i wraig, Sandra, yn gwneud gwaith ysgrifenyddol o'i chartref, i'w gŵr ac i eraill.

Am fwy o fanylion cysylltwch â
Huw Roberts,
Preswylfa,
28 West Hill Drive,
Llantrisant,
Morgannwg Ganol. CF7 8DX
Tel. 0443-224182




## CLWB IFOR BACH

Mae Clwb Ifor Bach, dan ei newydd wedd, ar y cyd a'r Cwmni Arlwyaeth 'Bwffe Bwyd Da', yn cynnig cyfle gwych i chi gynnal achlysuron arbennig megis partion a dathliadau eraill. Gall cymdeithasau hurio ystafelloedd o bryd i'w gilydd am bris rhesymol iawn i gynnal achlysuron Cymraeg, dwyieithog neu ddi-Gymraeg. Mae gan y Clwb drwydded hwyr i agor tan ddau o'r gloch y bore chwe noson yr wythnos.

Gellir dewis o blith amrywiaeth o fwydlenni oer a thwym neu fe ellir gwneud eich trefniadau eich hunain ar gyfer bwyd. Gellir defnyddio byrddau'r Clwb neu fyrddau ciniawa arbennig.

Mae gan y Clwb ddwy ystafell achlysuron:

Y Lolfa

* lle i gant o bobol i eistedd i gael bwffe, hyd at gant a thri deg o bobol gyda rhai'n sefyll, neu le i chwe deg i eistedd i bryd o fwyd twym.

* offer sain, disgo, llwyfan a llawr dawnsio

* adnoddau coginio

Y Neuadd
(addas i bartion mawr - dros 100 o bobol)

* seddau i dros gant o bobol am bryd o fwyd twym neu bwffe

* llawr dawnsio mawr a llwyfan sylweddol

* offer sain disgo, pelen-ddrych a chyfarpar drama

* bar a chyfleusterau ar wahan

Mae'r Clwb hefyd yn cynnwys:

Ystafell Chwaraeon a seddau i 120, byrddau snwcer, pwl a dartiau

Ystafell Bwyllgora i gyfarfodydd bach neu grwpiau trafod a dosbarthiadau a lle i 25 o bobol

Parcio a thrafnidiaeth
Mae yna ddau faes parcio o fewn hanner canllath i'r Clwb a llefydd parcio i gannoedd o geir, ac mae bron pob bws Caerdydd yn teithio o fewn ergyd carreg i'r adeilad. Mae gan y Clwb faes parcio preifat a lle i chwech o geir.

Cysylltiadau Clwb Ifor Bach 32199; Swyddog (dydd a nos) 499868



## Lobi'r Merched

'Lobby' Merched y Wawr yn y Ty Cyffredin, Hydref 26ain

Fel arfer mae yna un llinell o ymwelwyr yn ciwio y tu allan i'r Tŷ Cyffredin er mwyn cael mynediad i'r Oriel Gyhoeddus. Pan gyrhaeddais yno ddydd Llun diwethaf roedd yno dair rhes - tua pum cant o Ferched y Wawr yn ffurfio dwy res, un i fynd i gyfarfod yn y 'Grand Committee Room' a'r llall i fynd i'r 'Lobby' - dyna beth oedd golygfa! Roedd yn fy atgoffa o'r diwrnod hanesyddol hwnnw y cymerodd Gwynfor ei sêdd yn St. Steffan am y tro cyntaf. Wrth wthio i flaen y ciw (dim ond oherwydd fy mod i annerch y cyfarfod) gwelais ferched o Ddyffryn Tywi, rhai o Fethesda y cefais y fraint i gyd-deithio a nhw i Rwsia ar daith Merched y Wawr; o Gaerdydd - cyd-famau plant Ysgol Rhydfelen - roedden nhw yno o bob cwr o'r wlad wedi teithio ers oriau mân y bore bach i sicrhau y bydd dydd Llun, Hydref 26ain, 1987 yn ddiwrnod hanesyddol hefyd. Merched y Wawr yn uno i bwyso ar y Llywodraeth ac yn enwedig y Swyddfa Gymreig i brysuro gyda'u haddewidion a rhoi cyfundrefn effeithiol i Gymru fydd yn sicrhau y bydd llai o ferched yn marw o gancer y fron.

Trefnwyd yr ymgyrch gan yr Ysgrifennydd Cenedlaethol, Mererid James, a'r Pwyllgor Cenedlaethol, ar ddydd Cwestiynnau Cymraeg yn sgil y penderfyniad a wnaed mewn cyngor yng nghynt eleni i fynd i Westminster i Lobio'n Haelodau Seneddol. Ymunodd Nerys Hughes â ni i ddangos ei chefnogaeth - bu Nerys yma yng Nghaerdydd wrth gwrs yn lansio Apêl Tenuvus am arian i godi ael Uned Sgrinio Symudol i Gymru. O brofiad personol, roedd yn awyddus iawn i sicrhau cyhoeddusrwydd i ymgyrch Merched y Wawr - mae ei mam yn aelod o Gangen y Rhyl.

Daeth Dafydd Wigley, Dafydd Elis Thomas ac Ann Clwyd i ymuno ac i annerch rhyw dri chant o'r aelodau yn y 'Grand Committee Room' lle cynhaliwyd cyfarfod tra'r roedd y gweddill yn y 'Lobby' yn ceisio cael gafael yn yr Aelodau Seneddol Cymreig. Yn y diwedd fe ymddangosodd rhyw bump aelod arall ond lle roedd y gweddill? Rhaid dweud, beth bynnag lliw ei got, fod pawb yn gytun ynglyn a'r ymgyrch hon.

Yn wahanol i gancer y groth, ar hyn o bryd yng ngoleuni'r wybodaeth bresennol, allwn i ddim rhwystro cancer y fron rhag datblygu. Yr unig obaith yw sicrhau diagnosis cynnar - a'r unig ffordd i sicrhau hynny yw drwy sgrinio. Rhaid galw am adnoddau i sefydlu gwasanaeth fydd nid yn unig yn sicrhau diagnosis cynnar ond fydd hefyd yn darparu y driniaeth orau posib, hyfforddiant drwyadl i weithwyr, addysg iechyd i wragedd, mwy o ganolfannau, a mwy o beiriannau. Rhaid i bob merch gael y gwasanaethau gorau posib yn rhad ac am ddim i wynebu cancer y fron gyda hyder. Rhaid sicrhau fod arian ar gael i greu'r gwasanaeth yma - Diagnosis cynnar yw'r arf gorau.

Beti Wyn Davies
Swyddog Addysg/Gwybodaeth
Tenuovus.

## Y CALENDR

**Tachwedd**

9 Merched y Wawr, Caerdydd
NOSON GWENLLIAN
Mr. Bob Morris, C.A.D.W.

12 Clwb Cinio Merched Caerdydd; Gwesty Thatchers, Heol Pidlas, Llanishen am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

13 Bore Coffi (10.30-12..00) yn y Mansion House ar wahoddiad yr Arglwydd Faeres ar gyfer Cymdeithas Genhadol yr Eglwys Bresbyteraidd. Tocynnau: 75c.

19 Eglwys Ebeneser, Caerdydd Dydd Iau, 2.15 o'r gloch Bydd Mr. David Elias yn siarad ar Yr Emydon mewn ffurf arall gyda enghreifftiau ar yr organ. Mae croeso cynnes i Gymry y ddinas i ymuno â ni y prynhawn yma.

26 Coleg y Brifysgol Caerdydd
DARLITH GOFFA G.J.WILLIAMS
dydd Iau, am 5.30 p.m.
'PATRYMAU RHYDDIAITH'
Darlithydd: Y Parch Islwyn Ffowc Elis, Coleg y Brifysgol, Llanbedr Pont Steffan. Cynhelir y ddarlith yn Ystafell 2.1 Adeilad y Dyniaethau, Coleg y Brifysgol (y tu cefn i Colum Road). Croeso cynnes i bawb.

28 Ffair Ysgol Bro Eirwg.
10.00 - 12.30
Bargeinion lu!!

**Rhagfyr**

4 Cymrodorion Caerdydd
Festri Ebeneser, Sgwrs gan Mrs. Ray Evans, Enillydd Medal Ryddiaith Abergwaun; 7.15 p.m.
Cadeirydd: Mrs. Joan Rees

5 Nos Sadwrn yng Nghapel Salem, Canton, 'Ser yn Salem' - y Cyngerdd Blynyddol i godi arian i'r Trydydd Byd. Arweinydd: Arfon Haines Davies. Tocynnau: £2.00

8 Cymry'r Eglwys Newydd - Dathlu'r Nadolig

13 Noson o Garolau, Eglwys Dewi Sant, 8 o'r gloch Paned a mins pei i bawb. Y noson er budd Canolfan yr Urdd.

Hoffai holl ffrindiau Mrs. Ann Wyn Jones, Y Llysfaen, ddymuno'n dda iawn iddi yn dilyn llawdriniaeth drom yn Ysbyty'r Brifysgol yn ddiweddar. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi ac y gwelwn hi allan o'r ysbyty yn fuan i fwynhau Dathlu'r Nadolig gyda David a Yolande.

HTV - CYMRU

Mae 'STUMIAU' yn ôl yn y flwyddyn newydd!
Ydych chi'n berson - hwyliog, ystwyth, diddorol, bywiog?

Byddwn yn cynnal gwrandawiadau ar hyd a lled Cymru yn ystod misoedd Rhagfyr a Ionawr.

Os am gystadlu, cysylltwch â Swyddfa 'Stumiau' drwy alw Caerdydd 590117/118, neu ysgrifennu at :

Swyddfa 'STUMIAU',
HTV Cymru,
Croes Cwrlwys,
CAERDYDD.
CF5 6XJ


# celtic asset management ltd.

**RHEOLWYR ANNIBYNNOL MEWN BUDDSODDIADAU AC ASEDAU PERSONOL. ARBENIGWYR MEWN CRONFEYDD BUDDSODDI. DELWYR TRWYDDEDIG MEWN GWARANNAU.**

**'Nawr mewn Swyddfeydd newydd - ers Awst 1af 1987,**

**TY PENHILL, 11/13 HEOL PENHILL, CAERDYDD**
**CF1 9UP**
**Ffon: 394021/4 Fax: 383803**

**Am fanylion pellach cysylltwch a Dafydd Hampson-Jones neu Peter Cardinali.**

# Cylch Cinio'n Gwobrwyo

**Bob blwyddyn y mae Cylch Cinio Cymraeg Dynion Caerdydd yn gwobrwyo dau ddysgwr, ac yn gwahodd yr enillwyr i ymuno a hwy i giniawa. Eleni Joanne Hall ac Emma Pimbley wobrwyd. Dyma ddyfyniad o'u hanerchiad i'r Cylch.**

Noswaith dda foneddigesau a boneddigion. Tybed ydych chi erioed wedi bod i Langrannog? Rydw i'n siwr bod rhai ohonoch chi wedi. Er roeddwn i wedi bod yn Llangrannog o'r blaen fel Swyddog, ces i nharo gan ysblander y wlad o amgylch Llangrannog. Roedd mor wahanol i'r ardal lle rydw i'n byw sef yn Nhremorfa.

Unwaith yn y gwersyll, doedd e ddim yn hir cyn i mi deimlo'n rhan o'r gymdeithas unwaith eto a cholles i bob ansicrwydd. Roeddwn i'n siarad ac yn meddwl yn Gymraeg fel petai'n famiaith.

Oherwydd roedd gweddill y gwersyllwyr yn blant anabl treuliais i ac Emma rhan fwyaf ein hamser rhydd gyda'r Swyddogion. Roedd pob un ohonynt yn gyfeillgar iawn ac yn hapus ein bod ni'n dysgu Cymraeg fel Safon 'A'.

Yn ystod y dydd roedden ni'n helpu'r plant gyda'r gweithgareddau, fel nofio, marchogaeth, dysgu nhw i sglefrio a hyd yn oed mynd ar feiciau modur. Wn i ddim pwy fwynheuodd ei hun fwyaf - fi neu'r plant. Roedd cymaint i wneud - dim amser i ddanto.

Un digwyddiad hyfryd fydda i byth yn anghofio yn ymwneud â Linda, un o'r plant. Roedden ni'n siarad a phenderfynodd ddwyn un o fy esgidiau. Yna roedd rhaid i mi ei hela ac ar ol deng munud eisteddais, wedi cael digon. Rhyw bum munud hwy fe ddaeth Linda nôl gyda fy esgid a dwedodd 'Sorri' a ches i gusan mawr ar fy moch. Erbyn diwedd yr wythnos roedden ni'n ffrindiau da. Mae rhaid i mi gyfaddef, roedd y plant, y Swyddogion, a phawb arall yn y gwersyll mor hyfryd doeddwn i ddim eisiau dod adre.

Cafodd yr wythnos yn Llangrannog gymaint o effaith arnom fel ein bod yn siarad Cymraeg yn naturiol ar y bws adre.

Hoffwn i orffen trwy ddiolch i chi gyd am ddewis Emma a fi fel Enillwyr Gwobr Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Gallaf eich sicrhau ein bod ni wedi cael budd mawr a mwynheuon ni ein hunain yn fawr iawn.

Diolch yn fawr.

Joanne Hall, Tremorfa.

Foneddigesau a Boneddigion, Well i mi gyflwyno fy hun yn gyntaf. Emma Pimbley ydw i o Benarth. Rydw i'n ddwy ar bymtheg ac yn ddisgybl yn Ysgol Sant Cyres ym Mhenarth. Rydw i yn y chweched dosbarth yn astudio Cymraeg, Ffrangeg a Saesneg.

Mae un brawd a chwaer gyda fi, Richard yn dair ar ddeg a Joanne yn un ar hugain, felly plentyn canol ydw i.

Mae fy nhad yn gweithio i Gwmni yng Nghaerdydd a mam yn gweithio fel Ysgrifenyddes yn Ysbyty Dewi Sant. Teulu agos iawn ydyn ni ac yn ffodus rydyn ni i gyd yn rhannu'r un diddordeb - beiciau modur. Mae beiciau gyda fy chwaer a fy nhad ac mae'r lleill yn gobeithio cael beic - fi'n arbennig, cyn bo hir.

Bydda i'n hoffi mynd i ralis ar y beic gyda fy chwaer, a llawer o ffrindiau gyda ni sy'n hoffi beiciau hefyd. Fy ffrind gorau ydy fy chwaer. Mae pawb yn galw ni'n chwiorydd 'Betty Boop'. Rydyn ni'n rhannu'n dillad ac arian ni i gyd a does neb arall sy'n adnabod fi'n well. Bydd fy nhad yn dweud ddylwn i fod wedi cael fy ngeni'n fachgen gan ei bod hi'n arferol i mi ddod adre gyda olew ar fy nwylo, neu chwarae rygbi gyda fy mrawd yn ein gardd ni.

Ar ôl i mi adael yr ysgol, i ddweud y gwir, wn i ddim beth i'w wneud, ond o leiaf mae'r wythnos yn Llangrannog wedi rhoi help i mi ddewis. Er i mi obeithio gweithio mewn garej basai fy rhieni'n hoffi i mi i fynd i'r Brifysgol, i astudio Cymraeg ac yna i fod yn athrawes neu gweithio ar Deledu Cymraeg.

Dydyn nhw ddim yn siarad Cymraeg ond mae nhw'n hapus iawn fy mod i'n dysgu'r iaith.

Yr haf yma dydyn ni ddim wedi bod ar wyliau felly roeddwn i wrth fy modd o gael y siawns i fynd i Langrannog.

Roedd yn dda gyda fi hefyd fy mod i'n gallu teithio gyda Joanne gan i ni fod ar Gwrs Cymraeg gyda'n gilydd a chawsom ni amser gwych.

Y bore Llun, fe gyrhaeddais i'r orsaf wedi blino ac yn barod i fynd yn ol i'r gwely ond roedd Joanne yn llawn bywyd, yn hapus i gasglu'r tocynnau ni a'm gwthio ar y bws. Mwynheuon ni'r daith yn fawr iawn, yn gweld y Bontfaen, Abertawe, Port Talbot, Caerfyrddin, Llanbedr, Tregaron ac o'r diwedd Aberaeron. Mae Aberaeron yn bert iawn gyda'i sgwar mawr, ble bydd bron popeth yn digwydd. Yma fe gwrddon ni a thair merch oedd yn mynd i Langrannog hefyd - Heledd, Mari a Brenian. Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf nhw ac felly ar ol dweud 'Helo' roedd yn rhaid i ni siarad Cymraeg tan dod adre. Fe ddaeth Jim o Langrannog i'n nol ni a chyrhaeddon ni'r gwersyll tua pedwar o'r gloch. 'Ti eisiau bwyd?' gofynnodd Jim. Wel dyna i gyd glywais drwy'r wythnos. Yn Llangrannog bydd pawb yn bwyta cymaint, gan bod y bwyd yn wych.

Roedd y pryd cyntaf 'na yn brofiad newydd i mi. Cerddais i mewn i'r neuadd ac yn sydyn trawyd fi gan y swn. Roedd grwpiau o blant yn rhedeg o gwmpas, yn gweiddi, yn bwyta ac yn cael amser bedigedig.

Daeth bachgen ata fi a gofyn, 'Beth ydy d'enw di? Barri ydw i. Faint ydy d'oed di? Wyth ydw i. Wyt ti eisiau eistedd gyda mi?'Wel, sut oeddwn i'n gallu gwrthod?

Cwrddais i a'n hathrawes. Roedd y grŵp hi'n dod o Ysgol White Mill yn Aberteifi. Roedd tair athrawes a saith o blant a fi oedd i fod eu Swog nhw. O'r munud cyntaf y cwrddon ni, fe ddaethon ni'n ffrindiau mawr.

Felly diolch yn fawr iawn am roi'r siawns i mi i fyw fel gwir Gymraes am wythnos ac am helpu fi i gwrdd a ffrindiau newydd. Diolch yn arbennig i Mr. Davies sydd wedi bod mor garedig i ni.

Rydw i'n gobeithio bydd y dysgwyr fydd yn mynd i Langrannog yn y dyfodol yn cael amser mor fendigedig a fi. Diolch.


Emma Pimbley,
Penarth.

# PYTIAU

Croeso i Gaerdydd i Glenys a Idris Williams sydd newydd ddod i fyw i Highfields yn Llandaf. Yn fwy cywir, croeso'n ôl i Gaerdydd i'r ddau gan eu bod yn byw yn y ddinas am gyfnod (a phriodi yng Nghapel Minny Street) cyn symud i fyw i Gaergrawnt ar ddechrau'r pum degau. Cardi o'r Cei yw Glenys ac un o Dredegar Newydd yw Idris. Merch iddynt yw Ceri Berrington sy'n gweithio gyda'r BBC yn Llandaf.

Wedi symud i fyw i Wenfo ar ôl treulio ugain mlynedd yn Winchester mae Gordon Jones, sy'n frodor o Landysul. Mae Gordon yn gweithio yn Swyddfa Erlynydd y Goron yn Greyfriars Place. Saesnes, ar hyn o bryd yn brysur yn dysgu Cymraeg, yw ei wraig Elizabeth, ac mae ganddynt ddau fab, Edward a Huw sydd yn 10 ac 8 mlwydd oed. Un o'r pethau cyntaf wnaeth Gordon wedi symud i Wenfô oedd ymuno a Chylch Cinio'r Barri.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816



# FFILM

**THE UNTOUCHABLES**
**(Tystysrif '15')**

Dyn a delfrydau aruchel ganddo yw Eliot Ness (Kevin Costner) pan mae'n cyrraedd Chicago yn 1930. Fel Swyddog Federal ei waith yw ceisio chwalu y farchnad ddiod anghyfreithlon, mewn cyfnod pan oedd iau 'Prohibition' yn fwrn ar war yr Unol Daleithiau. Mae'n bwrw i'r gwaith yn syth heb fawr o syniad mewn gwirionedd am Chicago a'i ffyrdd. O ganlyniad fe dry ei ddiwrnod cyntaf yn ei waith yn llanast hunllefus. Yn lle llwyddo i ddarganfod wisgi mewn warws yn y ddinas, y cwbl mae Ness a'r heddlu yn ei ddarganfod yw llond bocsus o ambarelau lliwgar. Mae'r papurau hwyr yn llawn lluniau gwawdlyd o Ness yn agor un o'r ambarelau. Ar ôl dod ato ei hun wedi embaras y digwyddiad yna mae'n chwilio am rhywun i'w ddysgu am y ddinas ac yn darganfod Jimmy Malane (Sean Connery). Plisman cyffredin o Wyddel yw Malone sy'n llawn doethineb defnyddiol. Yn fuan iawn mae dau arall wedi ymuno a'r grwp bach sydd wedi tyngu i ddod a'r un dyn sy'n rheoli Chicago i'r ddalfa.

Rheolwr Chicago yn 1930 oedd Alphanse Capone. Anifail anwar o ddyn a ddaeth yn filiwnydd drwy gyflenwi wisgi i wlad sychedig. Gwyneb Capone (Robert De Niro) sy'n agor y ffilm. Mae'n cael ei siafio gan farbwr tra mae haid o ohebyddion brwd o'i amgylch yn ei holi. Ni flinai Capone ar siarad a'r Wasg ac mae'n siarad amdano ei hun wrthynt "I'm a peaceful man...a businessman", meddai yn addfwyn, ac wedyn "...but where I came from you got further with a kind word and a gun than with just a kind word". Yn sydyn yr ydym wedi gadael yr olygfa yma ac fe gawn gip ar sut mae Mr. Capone yn cynnal ei fusnes heddychlon. Mae un o'i ddynion yn dinistrio siop fechan ac yn lladd geneth fach sy'n digwydd bod yno, ar ôl i'r perchenog wrthod prynu wisgi Capone.

Adloniant pur yn y dull epig yw The Untouchables ac er ei bod yn ffilm eang mae Brian De Palma yn cymeryd diddordeb byw yn ei gymeriadau ac mae'r actorion yn rhoi perfformiadau gwych iddo o'r herwydd. Nid Eliot Ness di-liw ac anniddorol Robert Stack (yn y gyfres deledu wreiddiol) sydd yn y ffilm hon, ond yn hytrach dyn teulu, moesol, sy'n gwneud ei waith yn gydwybodol (er ei fod yn gorfod cyfaddawdu) ac sy'n fodlon dysgu o'i gamgymeriadau.

Ffilm 'gangster' hen ffasiwn yn llawn saethu a chyffro yw **The Untouchables** yn y bon hwyrach, ond y cyflwyniad sy'n arbennig y tro hwn ac yn ei chadw uwchben y cannoedd eraill o rai tebyg. Ewch i'w gweld ar bob cyfrif oherwydd mae'n debyg y bydd hi'n sbel go lew cyn y gwelwch chi ffilm gystal.

Dafydd Jones

# Arddangosfeydd Tachwedd

**AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**

**Y Prif Adeilad, Parc Cathays**
Campweithiau o'r Amgueddfa Genedlaethol.

**Tŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth**
Peintiadau Cyfoes
Detholiad o gasgliad yr Amgueddfa - y rhai nad oes lle i'w dangos yn y Prif Adeilad oherwydd gwaith ehangu orielau.

**Cardiau Nadolig Newydd**
Cyhoeddwyd dau gerdyn Nadolig newydd eleni. Dangosant olygfeydd o Gaerdydd a beintiwyd mewn dyfrliw yn y 18fed ganrif gan Paul Sandby (1725-1809). Wedi 1770 dechreuodd ymweld a Chymru ac yr oedd yn un o'r artistiaid cyntaf i werthfawrogi a dehongli golygfeydd Cymreig. Y ddwy olygfa ar y cardiau yw Porth y Gogledd gyda Eglwys Santes Fair yn y pellter, ac yn y llall gwelir Castell Caerdydd a Phorth y De. Pris y cardiau - 35c yr un.

**Chapter, Heol y Farchnad, Treganna**
O Fewn Côf
Peintiadau gan Graham Crowley - 21 Tachwedd - 20 Rhagfyr
Y mae Graham Crowley yn adnabyddus iawn fel un sydd wedi arddangos yn Ewrop a'r Unol Daleithiau. Daeth i fyw Gymru wedi iddo dderbyn apwyntiad am dair blynedd fel Cymrawd mewn Celfyddyd Cain yn Adran Dylunio a Chelfyddyd Athrofa De Morgannwg.

Dywed Graham Crowley am ei ran fel artist - "...defnyddiaf fy synnwyr cyffredin; nid yw'n bwysig i mi a yw pobol yn medru darllen fy lluniau yn y dull arferol, gall unrhyw un edrych ar luniau a dweud beth sydd ynddynt. Peth arall yw deall. Nid ydynt yn lluniau syml i bobol syml...

Y mae dod i Dde Cymru wedi cael argraff arnaf fi a fy ngwaith. Yr oedd gweld y gwaith tanwydd yn Aberpennar yn cyfleu i mi fel mae pobol De Ddwyrain Lloegr yn cael triniaeth mwy ffafriol".

**DARLITH GOFFA G.J.WILLIAMS**

Cynhelir Darlith Goffa G.J. Williams eleni ar ddydd Iau, Tachwedd 26ain, am 5.30 o'r gloch.

'Patrymau Rhyddiaith' fydd testun y Ddarlith ac fe ddarlithir gan y Parch Islwyn Ffowc Elis, Coleg y Brifysgol, Llanbedr Pont Steffan.

Cynhelir y ddarlith yn Ystafell 2.1 Adeilad y Dyniaethau, Coleg y Brifysgol (y tu cefn i Colum Road). Croeso cynnes i bawb.

Dymuna'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig am eu cymorth gyda'r rhifyn hwn.

MAKERS GUILD in WALES

**FFAIR GREFFTAU URDD GWNEUTHURWYR CREFFTAU**

Yn ystod mis Tachwedd cynhelir nifer o ffeiriau gan wahanol Sefydliadau yn Neuadd Dewi Sant, dydd Gwener a Sadwrn, Tachwedd 27ain a'r 28ain. Bydd cyfle i'r cyhoedd weld a phrynu cynnyrch aelodau hen a newydd o Urdd Gwneuthurwyr Crefftau Cymru. Yn yr arddangosfa bydd gwaith gwydyr gan Richard Price o Lantrisant, gemwaith aur ac arian gan Celia Davies yn ogystal a chyfle i weld y turnwyr Geoffrey Rausome a David Wood wrth eu crefft. Cyfle arbennig felly i ddarllenwyr Y Dinesydd wneud tipyn o siopa Nadolig. Manteisiwch ar y cyfle.



Enghraifft o waith Molly Curley o Lanishen.

# CLWB CYMRIC

**CANLYNIADAU'R TIMAU PELDROED HYD AT SADWRN, 7fed TACHWEDD :**

Tim 1af


Bridgend Street
Howardian, Colli 1-4
Cardiff Cosmos, Ennill 2-0
Victoria Park
Ninian Spurs, Colli 0-8
Trelai Youth Club
Grange Albion, Ennill 3-1
Pemgam Social Club, Cyf.2-2
Splott Albion
Earl's Wood, Colli 2-1

Ail Dim

Cardiff 2 Sport, Colli 1-2
St. Mellons Utd, Ennill 4-3
Tongwynlais,
St. Albans, Colli 3-6
Splott Albion,
Earlswood,
Headlands, Cyf. 2-2
F.C. Penylan, Ennill 3-2
Unigate,
Quay Street,Colli 2-3
The Villa,
AFC Rumney, Ennill 3-0
Bridgend Street,
City Social,
Trelai Celts,

Mae'r ddau dim yn ymarfer bob nos Fawrth am 6.30 p.m. yn Ysgol Uwchradd yr Eglwysnewydd

# Y CROESAIR – Ap Lewsyn RHIF 76



**Ar Draws**

1. Maen' nhw'n wŷr craff, bywiog, fel cenedl (8)
5. Lle i gloddio tanwydd, gynt (6)
9. Pa hen gôr cymysg sydd yn rhaid ei gael? (8)
10. Dere'n chwaff o Gwm Rhondda. (6)
12. Gwnaed agoriad trofaus yr eurglawdd yn glir (o bob rhwystr) (5)
13. Gwaith crefftus yn y coed? (9)
14. Gwelodd Crwys un wrthi yn eu dysgub. (4,2,6)
18. Ffodd i fyd Cymru mewn helbul a chael ei fod, er hynny, wedi derbyn y drefn arferol (12)
21. Cymrwyd eto lun llai, a'i osod ar wahan i ryw ddiben(9)
23. Diwedd y gair olaf! (5)
24. Un o'r lliaws a dyfai lle bu mawredd (6)
25. Ond, ynghanol y dweud tafodieithol, wele'r act (8)
26. "Crog glychau'r creigle uchel" a welir yn y fath le (6)
27. Prid iawn i Hwntw (8)

**I Lawr**

1. Lleng Âlff a ddaw a'r chwip yn ôl (6)
2. Gosod papur? (6)
3. Tref ar lan mor Galilea (9)
4. Yn ein dydd ni, mae trydan wedi cyrraedd pob pentre – Ai dyna'r ystyr (2,3,4,3)
6. Afon o ffrwythau cochion(5)
7. Mae'n rhaid wrth safon a threfn i wybod pa bryd (3,5)
8. Troedle'r marchog (8)
11. Tyrfa'r dewr yn cael eu profi'n euog o drosedd yn erbyn y goron (12)
15. Y Sodomiaid yn cael un arall atynt i ddwyn cyrch trefnus (9)
16. Y wyddor sy'n dechrau ag C ac yn gorffen ag G. Am droad y canol -- nis gwn mono! (8)
17. Codi (8)
19. Mae hon yn gallu bod yn lliwgar os nad yn eang ar ambell i fin (6)
20. Pishyn o dir mwyn Shir Gar a gludwyd gan Farion i Bensylfania (6)
22. Ceisio pan gilia'r llanw? (5)

**DATRYSIAD RHIF 75**

**Ar Draws:**
1. CYDNABU; 5. LLANASTR;
10. ABAD; 11. ALLAN O BRINT;
12. AWENAU; 13. WYLOFAIN;
14. AR EI HOL HI; 16. Y SWNT;
17. ADLADD; 19. ADARYDDION;
23. BRWYDRWR; 24. WERMOD;
26. CAMLEOLIAD; 27. CAETH;
28. ARSWYDO; 29. CORDEDDU

**I Lawr**
2. YSBIWYR; 3. NODYN;
4. BLAGURO; 6. AROGLI;
7. AMRYFUSEDD; 8. TINCIAN;
9. CADW O HYD BRAICH; 15. IFAN Y GLAW; 18. DARLLAWR;
20. ROWNDIO; 21. OGOFEYDD;
22. ERIOED; 25. ROCED

**CYSTADLEUAETH RHIF 75**

Sylwed dau neu dri o'r cystadleuwyr mai AROGLI yw'r sillafiad cydnabyddedig erbyn hyn (gweler Y Geiriadur Mawr), ond gwelaf fod Y Geiriadur Mawr Mawr (Y Brifysgol) yn goddef AROGLU hefyd, er nad yw yn arferedig bellach. Gydag hynny o ragymadrodd gellir cyhoeddi inni dderbyn wyth datrysiad cywir i Rif 75. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd T.C. (Tony Couch, mi gredaf), 2,Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, ac eiddo ef y tocyn llyfrau y mis hwn. Y rhai cywir eraill oedd – John Hughes, Llanishen; B.T. Cyncoed; A.R.R. Abertawe; M.A. Lake, Llanfihangel ar Elai; Dilys Gunston Jones, Cyncoed; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd; J. Lloyd, Ger y Llyn.

**CYSTADLEUAETH RHIF 76**

Tocyn Llyfr am £5 y mis hwn eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y Croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd, erbyn Tachwedd 28ain, os gwelwch yn dda.

## LLONGYFARCH

Bu clychau'r Llan yn canu i amryw o aelodau staff S4C yn ystod y misoedd diwethaf hyn. Y ddwy ddiweddaraf i droedio at yr allor oedd Ann Mona Hughes a Valmai Evans.

Uwch-Gyfreithwraig yn S4C yw Ann a'r gyfraith yw galwedigaeth ei gwr Peter Watcyn Jones sydd yn gweithio gyda Chwmni Phillips and Buck. Priododd y ddau yn Eglwys Rhuddlan, Porth Swtan, Ynys Mon, ar ddydd Sadwrn, Medi 19. Twrne hefyd oedd y gwas priodas, Martin Hopwood, y bu Peter yn was iddo yntau pan briododd yn ddiweddar a Mererid Davies.

O Wynedd hefyd y daw Valmai Evans, Ysgrifenyddes Weinyddol yn Adran Beirianneg S4C. Priododd a William Sandison, Swyddog gyda'r Cyngor Gwarchodaeth Natur, yn Eglwys Crist Glanogwen, Bethesda, ar ddydd Sadwrn, Hydref 24ain. Bydd y ddau yn treulio eu mis mel yn Rwsia; enghraifft o "To Russia with love!"?

CYNGOR Y CELFYDDYDAU

SWYDDI YSGRIFENYDDOL

Mae'r Cyngor yn chwilio am dri/ tair Ysgrifennydd ar gyfer yr Adran Ddrama, Dawns a Chelf Weledol. Os ydych yn berson trefnus ac yn meddu ar allu ysgrifenyddol safonol ac yn mwynhau gweithio mewn awyrgylch prysur, carem glywed oddi wrthych. Gellir cael disgrifiadau llawn o'r swyddi gan gynnwys manylion cyflog ynghyd a ffurflenni cais oddi wrth Mrs. J. Gotts, Cyngor y Celfyddydau, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd. CEISIADAU I LAW ERBYN RHAGFYR 4ydd, 1987.
Mae Cyngor y Celfyddydau yn croesawu ceisiadau o bob carfan o gymdeithas, heb ystyried hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedl, statws priodasol, rhyw, tueddiadau rhywiol, anabledd na chredoau crefyddol. Bwriada'r Cyngor gyflogi staff a all weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.